

# Mesuryddion clyfar y camdybiaethau

Rydyn ni wedi creu'r daflen hon i'ch helpu i ddeall y ffeithiau am fesuryddion clyfar ac i ateb rhai o'r cwestiynau mwyaf cyffredin sydd gennych chi neu eich tenantiaid.

## Dydw i ddim yn gweld y pwynt o fesuryddion clyfar. Beth yw'r manteision i mi?

Mae gan fesuryddion clyfar lawer o fanteision ar gyfer landlordiaid a thenantiaid. Rydwn ni'n gwybod bod pobl sydd â mesuryddion clyfar yn cael gwell syniad o faint o ynni maen nhw'n ei ddefnyddio a faint mae'n ei gostio.

Mae mesuryddion clyfar hefyd yn rhoi darlleniadau mesurydd cywir yn awtomatig sy'n golygu nad oes syndod annymunol wrth dderbyn bil ar ddiwedd y mis, neu'r denantiaeth. Mae hyn yn gallu helpu tenantiaid i roi trefn ar eu biliau ynni a'u gwneud yn llai tebygol o fynd i ddyled.

Pan fydd eich tenant yn gadael, gallwch chi ddefnyddio'r mesurydd clyfar i fonitro defnydd yn ystod cyfnodau gwag a'ch helpu i leihau costau. Os oes unrhyw ddefnydd anarferol, gallai hyn fod yn arwydd o rywun yn yr eiddo, rhywbeth a adawyd ymlaen neu gyfarpar ddiffygiol.

## All mesuryddion clyfar helpu fy neu fy nhenantiaid i arbed arian?

Gall. Mae mwy nag 80 y cant o bobl sydd â mesuryddion clyfar wedi cymryd o leiaf un cam i ostwng eu defnydd o ynni. Yr amcangyfrif yw y bydd mesuryddion clyfar yn arbed £300 miliwn oddi ar filiau defnyddwyr yn 2020, gan godi i fwy nag £1.2 biliwn y flwyddyn erbyn 2030 – arbediad cyfartalog o £47 yr aelwyd. Dim ond y dechrau yw'r cynilion hyn, mae posibilrwydd o fwy gyda chynhyrchion a gwasanaethau newydd a alluogir gan system ynni clyfar.<sup>1</sup>

## Nid yw fy nhenantiaid erioed wedi gofyn i mi am fesuryddion clyfar.

### Ydy tenantiaid eisiau nhw?

Ydynt. Mae ein hymchwil yn dangos bod tenantiaid mewn llety a rentir yn breifat yn fwy tebygol o eisiau mesuryddion clyfar o'i gymharu â grwpiau eraill, ond mae'r un ymchwil yn dangos eu bod yn llai tebygol na grwpiau eraill i gael nhw wedi'u gosod. Mae nifer o resymau posib dros hyn, er enghraifft dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am drefnu'r gosodiad.

Os oes cymal yn eich cytundeb tenantiaeth a allai atal y tenant rhag newid y mesurydd, gallai hyn wneud i'r tenant feddwl eich bod chi'n gwrthwynebu cael mesurydd clyfar. Efallai y byddwch am ailedrych ar hyn a chael sgwrs gyda'ch tenantiaid am fanteision cael gosodiad mesurydd clyfar.



## Sut alla i gael gosodiad mesurydd clyfar yn fy eiddo a rentir?

Y person sy'n talu'r biliau ynni sy'n gyfrifol am ofyn am osodiad gan y cyflenwr ynni. Os yw'r tenant yn talu'r biliau, dylech chi gael sgwrs gyda nhw am fanteision mesuryddion clyfar a pham rydych chi eisiau iddyn nhw gael eu gosod yn yr eiddo. Gallai cael mesuryddion clyfar eu helpu nhw i gadw llygad agosach ar eu defnydd o ynni a gwneud newidiadau i ostwng eu biliau.

Os mai chi sy'n talu'r biliau, rydyn ni'n argymhell rhoi gwybod i'r tenant eich bod yn bwriadu newid y mesuryddion, a'u cyfeirio at ein gwefan i ddysgu mwy am y broses osod a sut i fanteisio ar y buddion.

## A fydd mesurydd clyfar yn gwneud newid cyflenwr ynni yn anodd yn y dyfodol?

Na fydd. Os oes gennych chi fesurydd clyfar mae'r broses o newid cyflenwr yr un peth yn union ag ar gyfer mesurydd traddodiadol, a does dim angen i chi gael mesuryddion clyfar newydd yn yr eiddo os byddwch chi neu eich tenant yn newid cyflenwr.

Mae'r mesuryddion clyfar ail genhedlaeth, sy'n cael eu gosod ar hyn o bryd, yn galluogi chi i newid yn llyfn rhwng cyflenwyr, ac mae bron 10 miliwn ohonynt eisoes wedi cael eu gosod.<sup>1</sup>

## Ydy mesuryddion clyfar yn gweithio gyda rhagdal?

Ydynt. Gall pob mesurydd clyfar weithio yn y modd credyd neu'r modd rhagdal, ac oherwydd bod y modd hwn yn gallu cael ei newid 'dros yr awyr' does dim angen i chi newid mesurydd wrth newid eich ffordd o dalu'r bil. Mae llawer o fanteision i bobl sy'n defnyddio rhagdal clyfar, gan gynnwys ychwanegu credyd ar-lein neu dros y ffôn, yn ogystal â chyfleoedd i gael cefnogaeth ychwanegol o bell gan y cyflenwr ynni.

## Ydy data personol fi fy hun neu fy nhenant mewn perygl gyda mesurydd clyfar?

Nac ydy. Mae mesuryddion clyfar yn ddiogel iawn. Mae hyn oherwydd bod ganddynt system ddiogeledd a ddatblygwyd gan arbenigwyr blaenllaw y diwydiant a'r llywodraeth gan gynnwys Canolfan Diogeledd Seiber Genedlaethol GCHQ.

Nid yw enw, cyfeiriad na manylion cyfrif banc y rhai sy'n talu'r bil byth yn cael eu storio yn y mesurydd, dim ond faint o ynni mae'n ei ddefnyddio.

## Oes angen cysylltiad band eang ar fesuryddion clyfar i weithio?

Nac oes. Mae mesuryddion clyfar yn defnyddio system ddiwifr benodedig sy'n hollol wahanol. Does dim angen Wi-Fi arnoch yn yr eiddo er mwyn iddi weithio ac ni fydd yn defnyddio Wi-Fi eich tenantiaid. Mae'r mesurydd clyfar a'r sgrîn ynni cartref yn cyfathrebu trwy rwydwaith cenedlaethol diogel sydd ar gyfer mesuryddion clyfar yn unig.

## Oes rhaid talu i gael mesurydd clyfar?

Does dim cost ychwanegol am osod mesurydd clyfar a chael cynnig sgrîn ynni cartref. Yn yr un modd â mesuryddion traddodiadol, mae'r gost o redeg a chynnal y rhwydwaith mesuryddion clyfar wedi'i lledaenu ar draws biliau pawb.

## Beth os oes difrod i fy eiddo yn ystod y gosodiad?

Mae mesuryddion clyfar yn cael eu gosod gan osodwyr sydd â chymhwyster ffurfiol i gwrdd â safonau cenedlaethol penodol fel a bennir gan y Cod Ymarfer Gosod Mesuryddion Clyfar. Mae'r cyflenwyr ynni i gyd wedi ymrwymo i'r côd hwn, sy'n cael ei reoleiddio gan Ofgem, ac nhw sydd â'r pŵer i'w orfodi. Yn yr achos annhebygol y bydd difrod yn digwydd i'r eiddo yn ystod y gosodiad, bydd y cyflenwr yn cywiro hyn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y mesuryddion clyfar a sut i gael un, rydyn ni yma i helpu!  
Gyrrwch e-bost i ni yn: [enquiries@smartenergyGB.org](mailto:enquiries@smartenergyGB.org)

<sup>1</sup> Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, (2019), **Cyflwyno mesuryddion deallus: dadansoddiad cost a budd**